GIG CYMRU NHS WALES
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

Cervical Screening Wales
Sgrinio Serfigol Cymru

Beth yw ystyr canlyniad annigonol eich prawf taeniad?

Gallwch gael ein taflenni i gyd mewn print mawr, ar dâp sain ac mewn Braille.

Mae'r daflen hon yn esbonio beth mae canlyniad annigonol i brawf taeniad yn golygu.

Pam bod canlyniad fy mhrawf taeniad yn annigonol?

Pan fydd y canlyniad yn dweud bod prawf taeniad yn annigonol, mae'n golygu fel arfer nad oedd digon o gelloedd gwddf y groth yn y sampl i'r labordy roi canlyniad cywir. Nid yw'n golygu bod unrhyw gelloedd annormal i'w gweld.

Gall fod nifer o resymau dros hyn:-

- Ni chafodd digon o gelloedd eu casglu ar y samplwr
- Nid oedd modd gweld y celloedd yn iawn, oherwydd gwaed neu weithiau oherwydd rhedlif
- Ni chafodd y math cywir o gelloedd eu casglu (mae hyn yn arbennig o bwysig os ydych chi wedi cael annormaledd 'chwarennol' o'r blaen)

Weithiau bydd sampl yn annigonol am resymau 'technegol'. Gall hyn fod oherwydd: -

- bod y sampl wedi gollwng neu wedi cael ei difetha
- bod y samplwr anghywir wedi'i ddefnyddio
- nad oedd y sampl wedi'i labelu
- bod y sampl wedi'i chymryd yn rhy gynnar ar ôl sampl flaenorol.

Os hoffech chi wybod beth yw'r union reswm yn eich achos chi, gallwch ofyn i'ch meddyg teulu neu'r sawl a wnaeth y prawf.

Faint o samplau sy'n annigonol?

Mae tua un o bob 50 sampl yn annigonol.

Pryd ddylwn i gael ail brawf?

Mae'n well aros chwe wythnos o leiaf cyn gwneud y prawf eto. Yn ddelfrydol, dylech chi gael prawf arall o fewn tri mis i ddyddiad y prawf annigonol.

Pam bod angen aros o leiaf chwe wythnos?

Bob tro mae sampl yn cael ei chymryd, mae'r haen uchaf o gelloedd yn cael ei thynnu o wddf y groth. Mae angen rhoi amser i'r celloedd yma dyfu eto cyn cymryd sampl arall. Mae peth tystiolaeth i ddangos bod ailadrodd profion yn rhy fuan yn gallu methu annormaleddau. Os yw'r prawf yn cael ei ailadrodd cyn pen chwe wythnos, bydd y canlyniad yn annigonol eto.

CSW05 (Ver 3) 03/10

Oes yna rywbeth y galla' i ei wneud i helpu erbyn y tro nesaf?

Os byddwch chi'n cael rhedlif neu waedu afreolaidd, mae'n bwysig i chi gysylltu â'ch meddyg. Efallai bydd angen i chi gael archwiliad neu driniaeth cyn i chi gael prawf arall. Mae'n bwysig peidio â chymryd sampl yn ystod eich mislif. Ceisiwch osgoi trefnu apwyntiad ar yr adeg hon. Weithiau bydd eich meddyg teulu neu'r sawl sy'n gwneud y prawf yn awgrymu y dylech chi roi eli neu gel yn eich gwain (fagina) am ryw bythefnos cyn cael prawf arall. Mae'n bwysig i chi ddilyn y cyfarwyddiadau wrth ddefnyddio'r eli.

Beth os yw'r prawf nesaf hefyd yn annigonol?

Os mai dyma'ch prawf annigonol cyntaf, ac mae canlyniad y prawf nesaf yn annigonol hefyd, byddwn ni'n eich cynghori i gael trydydd prawf.

Os bydd canlyniad y tri phrawf yn annigonol, byddwch chi'n cael eich cyfeirio at glinig colposgopi i gael archwiliadau ychwanegol.

Archwiliad yw 'colposgopi' sy'n golygu edrych yn fwy manwl ar wddf y groth i weld a oes angen trin rhai rhannau.

Os bydd angen i chi gael colposgopi byddwch chi'n cael llythyr a thaflen yn esbonio beth fydd yn digwydd. Nid oes angen i bawb sy'n cael y prawf colposgopi gael triniaeth wedyn.

Mwy o wybodaeth a chefnogaeth

Am ragor o fanylion am y cofnodion rydyn ni'n eu cadw, cysylltwch â Sgrinio Serfigol Cymru a gofynnwch am ein taflen 'Sut rydyn ni'n defnyddio gwybodaeth amdanoch chi'.

Os oes gennych chi unrhyw sylwadau neu gwyn am y gwasanaeth gallwch chi gysylltu â Sgrinio Serfigol Cymru. Gofynnwch am ein taflen 'Oes gennych chi unrhyw awgrymiadau, sylwadau neu gwynion am Sgrinio Serfigol Cymru?'.

Mae'r ddwy daflen yma ar gael ar ein gwefan: -

www.screeningservices.org.uk/csw

Mae Sgrinio Serfigol Cymru hefyd wedi cyhoeddi llawer o daflenni am y gwahanol agweddau ar sgrinio gwddf y groth. Maen nhw ar gael o:

- Y Cyfarwyddwr, Sgrinio Serfigol Cymru,
18 Heol y Gadeirlan, Caerdydd,
CF11 9LJ
- ein gwefan

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am ein gwasanaeth:

- Gofynnwch i'ch meddyg teulu
- Cysylltwch â'ch clinig iechyd lleol
- Ewch i'n gwefan
- Ewch i wefan Galw Iechyd Cymru: www.galwiechydcymru.wales.nhs.uk neu ffoniwch 0845 4647